# Adolygiad o Wariant 2010 – Yr effaith ar Gymru

**Hysbysiad Hwylus** **Tachwedd 2010**

## Cyflwyniad

Cyflwynodd Canghellor y Trysorlys (George Osborne) Adolygiad o Wariant 2010 ("yr Adolygiad") Llywodraeth y Deyrnas Unedig ar 20 Hydref 2010.[1] Mae'r Adolygiad yn nodi cynlluniau gwario adrannau'r Llywodraeth ar gyfer y pedair blynedd nesaf, nes 2014-15. Am y tro cyntaf, mae'r Adolygiad hwn hefyd yn ymdrin â meysydd gwariant a reolir yn flynyddol[2] ar gyfer pob adran o fewn Llywodraeth y Deyrnas Unedig a'r gweinyddiaethau datganoledig.

Mae'r Adolygiad yn nodi cynlluniau'r Llywodraeth i sicrhau **toriad o £81 biliwn** mewn gwariant dros gyfnod yr Adolygiad o Wariant (2011-12 tan 2014-15).

Dywedodd Ysgrifennydd Gwladol Cymru (Cheryl Gillan) am yr Adolygiad:

> No part of the UK can be immune from our share of the cuts made necessary by the deficit we inherited from the last Government, but this is a fair funding settlement for Wales. The Welsh Assembly Government is facing smaller cuts than most UK Government departments but, like everywhere else, tough decisions will have to be faced in Cardiff Bay. In the continued spirit of respect and partnership between our governments, I am committed to working the First Minister and Deputy First Minister to try to protect frontline services in Wales. I also welcome the reserved infrastructure projects announcement which will help support the Welsh economy and will be important for Wales's future growth.[3]

Mewn ymateb i'r Adolygiad, nododd y Gweinidog dros Fusnes a'r Gyllideb (Jane Hutt):

> The Spending Review means that Wales will receive the biggest cuts in its budget in at least a generation, and bigger than the reduction in any of the other devolved administration's budgets.[4]

## Effaith yr Adolygiad ar floc Cymru

**Caiff y cynlluniau gwario yn yr Adolygiad ond eu nodi i'r £0.1 biliwn agosaf, felly nid yw'r cyfrifiadau sy'n ymddangos yn y ddogfen hon yn fanwl gywir.** Mae Tabl 1 yn dangos ffigurau'r Adolygiad ar gyfer bloc Cymru o 2010-11 (blwyddyn sylfaen) tan 2014-15. Dangosir y ffigurau hyn yn seiliedig ar derfynau gwariant adrannol[5] a gwariant a reolir yn flynyddol. O hyn, gellir gweld:

---

[1] Trysorlys Ei Mawrhydi, **Spending Review 2010**, 20 Hydref 2010 [fel ar 21 Hydref 2010]

[2] **Gwariant a reolir yn flynyddol** – gwariant Llywodraeth y Deyrnas Unedig ar raglenni sy'n gallu bod yn gyfnewidiol ac yn rhaglenni yn ôl y galw; nid ydynt felly'n amodol ar gyfyngiadau penodol dros sawl blwyddyn yn yr un ffordd ag y mae rhaglenni terfyn gwariant adrannol. Yr elfen unigol fwyaf yw gwariant ar nawdd cymdeithasol. Mae eitemau eraill yn cynnwys credydau treth, gwariant awdurdodau lleol a hunan-gyllidir a llog dyledion.

[3] Trysorlys Ei Mawrhydi, **Spending Review 2010 Press Notices**, Cymru, 20 Hydref 2010 [fel ar 21 Hydref 2010]

[4] Llywodraeth Cynulliad Cymru, Jane Hutt (y Gweinidog dros Fusnes a'r Gyllideb), *The UK Government's Spending Review of 20 October 2010*, Datganiad Ysgrifenedig gan y Cabinet, 21 Hydref 2010.

[5] **Terfynau gwariant adrannol** – cyfanswm gwario ar gyfer adrannau o'r Llywodraeth dros gyfnod penodol o amser, ac eithrio eitemau yn ôl y galw ac eitemau cyfnewidiol. Caiff terfynau gwariant adrannol eu cynllunio a'u pennu yn ystod Adolygiadau o Wariant. Caiff hyn ei rannu rhwng cyllidebau adnoddau a chyfalaf. Arian heb ei neilltuo yw'r rhan fwyaf o'r terfyn gwariant adrannol ac mae'n rhoi disgresiwn llwyr i Lywodraeth Cymru dros ei blaenoriaethau gwario (sef yr hyn a elwir yn eitemau sy'n rhan o'r gyllideb wedi'i chlustnodi).

**Bod bloc Cymru ar gyfer 2011-12, o'i chymharu â 2010-11:**

- Wedi gweld gostyngiad o **£0.5 biliwn** (3.3%) o ran arian parod.
- **Mewn termau real[6] mae hyn yn hafal i ostyngiad cyffredinol o £0.8 biliwn** (5.1%).
- O'r wybodaeth a ddarparwyd **mae'n anodd nodi rhannau cydrannol y newidiadau hyn gan fod y ffigurau wedi'u talgrynnu i'r £0.1 biliwn agosaf;** o'r herwydd, nid yw unrhyw newidiadau sy'n llai na £100 miliwn wedi'u nodi.

**Dros gyfnod yr Adolygiad o Wariant, bydd bloc Cymru yn gweld:**

- **Gostyngiad cyffredinol o £0.4 biliwn (2.7%) yn nhermau arian parod.**
- **Mewn termau real mae hyn yn cyfateb i ostyngiad o £1.9 biliwn (11.3%).**

Mewn datganiad yn ymateb i'r Adolygiad o Wariant, cyfeiriodd y Gweinidog dros Fusnes a'r Gyllideb (Jane Hutt AC) yn benodol at y gostyngiad cyfalaf ym mloc Cymru gan ddweud:

> ...by 2014-15 our capital budget will be lower in real terms than at any stage since the 1980s. The budget is slashed in the first year by more than 25% in real terms. This risks doing major damage to the economic recovery in Wales.[7]

Mae Tabl 2 yn dangos manylion y newidiadau i gyfanswm terfynau gwariant adrannol adrannau eraill o fewn Llywodraeth y Deyrnas Unedig (gan gynnwys y gweinyddiaethau datganoledig).

### Hyblygrwydd Diwedd Blwyddyn

Yn ogystal ag effaith newidiadau yn adrannau Llywodraeth y Deyrnas Unedig ar floc Cymru, mae'n bosibl y caiff yr Adolygiad effaith bellach ar bwerau gwario Llywodraeth Cymru, a hynny drwy newidiadau i'r hyblygrwydd diwedd blwyddyn.[8] Mae'r Adolygiad o Wariant yn nodi bod Llywodraeth y Deyrnas Unedig yn bwriadu:

> ...abolishing the EYF scheme at the end of 2010-11, including all accumulated stocks, and replacing it with a new system from 2011-12 which will retain an incentive for departments to avoid wasteful end-year spending and strengthen spending control.[9]

Mae Llywodraeth y Deyrnas Unedig i roi rhagor o fanylion am hyn yn ddiweddarach yn y flwyddyn.

Ar hyn o bryd, Trysorlys Ei Mawrhydi sy'n gyfrifol am stoc hyblygrwydd diwedd blwyddyn Llywodraeth Cymru, ac mae'r ffigurau diweddaraf[10] yn nodi bod cyfanswm y stoc werth tua £594 miliwn.[11] Mae'r Adolygiad o Wariant yn cyfeirio at ddiddymu'r stocau hyn, ond nid yw'n sôn am yr hyn a fydd yn digwydd i'r stocau sydd wedi'u cronni.

---

[6] Caiff ffigurau termau real eu cyfrifo gan ddefnyddio **GDP deflators** Trysorlys Ei Mawrhydi, 29 Medi 2010 [fel ar 21 Hydref 2010]
[7] Llywodraeth Cynulliad Cymru, Jane Hutt (y Gweinidog dros Fusnes a'r Gyllideb), *The UK Government's spending Review of 20 October 2010*, Datganiad Ysgrifenedig gan y Cabinet, 21 Hydref 2010.
[8] **Hyblygrwydd diwedd blwyddyn** – Dull o drosglwyddo darpariaeth na chafodd ei gwario yng nghyllideb y terfyn gwariant adrannol o un flwyddyn i'r nesaf. Mae hyn yn sicrhau bod modd defnyddio unrhyw arian nas gwariwyd yn hytrach na gorfod ei roi'n ôl i Drysorlys Ei Mawrhydi. Rhaid i Drysorlys Ei Mawrhydi gymeradwyo hynny os bydd arian hyblygrwydd diwedd blwyddyn i'w drosglwyddo a'i ddefnyddio'n ddiweddarach. Ceir rhagor o wybodaeth am hyblygrwydd diwedd blwyddyn yn Hysbysiad hwylus Gwasanaeth Ymchwil yr Aelodau: **Hyblygrwydd diwedd blwyddyn** (Saesneg yn unig) [fel ar 21 Hydref 2010]
[9] Trysorlys Ei Mawrhydi, **Spending Review 2010**, 20 Hydref 2010 (tudalen 18) [fel ar 21 Hydref 2010]
[10] Trysorlys Ei Mawrhydi, **Public Expenditure 2009-10 Provisional Outturn**, Gorffennaf 2010 [fel ar 21 Hydref 2010]
[11] Er nad arian parod yw £239 miliwn o'r stocau hyn.

## Prif gyhoeddiadau a all effeithio ar Gymru

Yn yr Adolygiad o Wariant, rhestrwyd hefyd gyfres o fesurau mewn meysydd nad ydynt wedi'u datganoli a all effeithio ar Gymru. Rhestrir rhai o'r rhain isod. Nid yw'r rhestr hon yn un gynhwysfawr.

- Toriadau o £7 biliwn o ganlyniad i'r diwygio lles – mae hyn yn cynnwys cyfyngiad amser newydd o flwyddyn i'r rhai sy'n hawlio lwfans cyflogaeth a chymorth; datblygu Rhaglen Waith ar gyfer pobl sy'n ddi-waith yn y tymor hir; cyflwyno budd-dal cyffredinol; gosod cap ar gyfanswm y budd-daliadau sydd ar gael i bob teulu; rhewi'r dyfarniad cynilion uchaf mewn credydau pensiwn; trothwy oriau gwaith uwch ar gyfer credyd treth gwaith i gyplau â phlant; codi oed pensiwn y wladwriaeth i 66 erbyn 2020 a chyflymu'r broses o godi'r oed ymddeol i fenywod; cynydd yn yr elfen blant o gredyd treth plant a chael gwared ar fudd-dal plant i drethdalwyr sydd ar gyfradd uwch.
- Buddsoddi mewn seilweithiau trafnidiaeth – cyllideb ychwanegol i Network Rail ar gyfer gwaith cynnal a chadw a buddsoddi – gan gynnwys gwella coridor Caerdydd a Barri; cymorth ar gyfer buddsoddi i wella dibynadwyedd gwasanaethau prif linell Great Western i Gymru. Nid yw'r Adolygiad o Wariant yn cynnwys unrhyw gyhoeddiad am drydaneiddio'r brif linell rhwng Abertawe a Llundain.
- Amddiffyn – penderfyniadau i beidio â bwrw ymlaen â'r Academi Amddiffyn yn Sain Tathan ac i barhau â'r contract PFI £13 biliwn ar gyfer rhaglen Awyren Dancer Strategol y Dyfodol, gan gynnwys adeiladu'r adennydd yng Nghymru.
- Cadarnhad o'r bwriad i fwrw ymlaen â'r Banc Buddsoddi Gwyrdd y gallai Cymru elwa ohono.
- Gostyngiad o 25 y cant yng nghyllideb S4C, a threfniadau bod ffioedd trwyddedu'r BBC yn cyllido'r sianel yn rhannol.
- Swyddfa Cymru i dderbyn gostyngiadau cronnus o 25 y cant a 33 y cant i'w gyllideb refeniw a gweinyddu.

## Ariannu datganoli

Mae'r Adolygiad o Wariant yn cadarnhau ymrwymiad Llywodraeth y Deyrnas Unedig i weithredu argymhellion Adroddiad Comisiwn Calman yn yr Alban, ac yn nodi y bydd Mesur Senedd yr Alban yn cael ei ddwyn ymlaen yn y sesiwn Seneddol bresennol.

Mewn perthynas ag adroddiad Comisiwn Holtham, mae'r Adolygiad yn nodi:

> ...the Government recognises the concerns expressed by the Holtham Commission on the system of devolution funding. Depending on the outcome of the forthcoming referendum, the Government will consider with the Welsh Assembly Government the proposals in the final Holtham report, consistent with the work being taken forward in Scotland following the Calman Commission.[12]

Ymatebodd y Gweinidog dros Fusnes a'r Gyllideb (Jane Hutt) i'r cyhoeddiad hwn yn ei datganiad:

> The UK Government had an opportunity partly to mitigate the impact of the Spending Review on Wales by taking action to address the persistent underfunding demonstrated by the independent Holtham Commission. The UK Government have chosen not to act. We look forward to the UK Government's consideration, with the Assembly Government, of the compelling recommendations contained in the Final Report of the Holtham Commission, as we continue to be underfunded – to the tune of more than £1bn over the next four years.[13]

[12] Trysorlys Ei Mawrhydi, **Spending Review 2010**, 20 Hydref 2010 (tudalen 71) [fel ar 21 Hydref 2010]
[13] Llywodraeth Cynulliad Cymru, Jane Hutt (y Gweinidog dros Fusnes a'r Gyllideb), *The UK Government's spending Review of 20 October 2010*, Datganiad Ysgrifenedig gan y Cabinet, 21 Hydref 2010.

### Tabl 1: Ffigurau bloc Cymru o 2010-11 tan 2014-15

| | 2010-11 (blwyddyn sylfaen) | 2011-12 | 2012-13 | 2013-14 | 2014-15 | Newid o ran arian parod 2010-11 i 2011-12 | | Newid mewn termau real 2010-11 i 2011-12 | | Newid cronnus o ran arian parod 2010-11 i 2014-15 | | Newid cronnus mewn termau real 2010-11 i 2014-15 | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | *£ biliwn* | *£ biliwn* | *£ biliwn* | *£ biliwn* | *£ biliwn* | *£ biliwn* | *y cant* | *£ biliwn* | *y cant* | *£ biliwn* | *y cant* | *£ biliwn* | *y cant* |
| Refeniw terfynau gwariant adrannol[1] | 13.3 | 13.3 | 13.3 | 13.5 | 13.5 | 0.0 | 0.0 | -0.3 | -1.9 | 0.2 | 1.5 | -1.1 | -7.5 |
| Cyfalaf terfynau gwariant adrannol | 1.7 | 1.3 | 1.2 | 1.1 | 1.1 | -0.4 | -23.5 | -0.4 | -25.0 | -0.6 | -35.3 | -0.8 | -41.0 |
| **Cyfanswm terfynau gwariant adrannol** | **15.0** | **14.5** | **14.5** | **14.5** | **14.6** | **-0.5** | **-3.3** | **-0.8** | **-5.1** | **-0.4** | **-2.7** | **-1.9** | **-11.3** |
| Refeniw gwariant a reolir yn flynyddol | -0.1 | -0.1 | -0.1 | -0.1 | -0.1 | 0.0 | 0.0 | 0.0 | -1.9 | 0.0 | 0.0 | 0.0 | -8.9 |
| Cyfalaf gwariant a reolir yn flynyddol | 0.0 | 0.0 | 0.0 | 0.0 | 0.0 | 0.0 | 0.0 | 0.0 | .. | 0.0 | 0.0 | 0.0 | .. |
| **Cyfanswm gwariant a reolir yn flynyddol** | **-0.1** | **-0.1** | **-0.1** | **-0.1** | **-0.1** | **0.0** | **0.0** | **0.0** | **-1.9** | **0.0** | **0.0** | **0.0** | **-8.9** |

Ffynhonnell: Cyfrifiadau Gwasanaeth Ymchwil yr Aelodau o **Adolygiad o Wariant 2010**, Trysorlys Ei Mawrhydi.

Mae ffigurau yn y tabl hwn yn deillio o gyhoeddiad Adolygiad o Wariant 2010 Trysorlys Ei Mawrhydi. Mae ffigurau yn y cyhoeddiad hwn wedi'u talgrynnu i'r £0.1 biliwn agosaf. Ni fydd pob ffigur yn y tabl hwn yn gywir oherwydd y talgrynnu hwn. Mae'n bosibl na fydd y cyfrifiadau yn y tabl hwn, sy'n dangos cyfanswm y ffigurau a newidiadau mewn canrannau, yn gwbl hafal i gyfrifiadau yn y ddogfen Adolygiad o Wariant, gan fod y cyfrifiadau hynny'n seiliedig ar ffigurau manwl.

1 Nid yw ffigurau refeniw terfynau gwariant adrannol yn cynnwys dibrisiant. Os yw dibrisiant wedi'i gynnwys, y ffigurau yw £13.7bn ar gyfer 2010-11 a 2011-12, £13.8bn ar gyfer 2012-13, a £14bn ar gyfer 2013-14 a 2014-15.

## Tabl 2: Newidiadau i gyfanswm terfynau gwariant adrannol1 adrannau Llywodraeth y Deyrnas Unedig 2010-11 tan 2014-15

| | 2010-11 (blwyddyn sylfaen) | 2011-12 | 2012-13 | 2013-14 | 2014-15 | Newid o ran arian parod 2010-11 i 2011-12 | | Newid mewn termau real 2010-11 i 2011-12 | | Newid cronnus o ran arian parod 2010-11 i 2014-15 | | Newid cronnus mewn termau real 2010-11 i 2014-15 | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | *£ biliwn* | *£ biliwn* | *£ biliwn* | *£ biliwn* | *£ biliwn* | *£ biliwn* | *y cant* | *£ biliwn* | *y cant* | *£ biliwn* | *y cant* | *£ biliwn* | *y cant* |
| Addysg | 58.4 | 56.1 | 56.3 | 56.2 | 57.2 | -2.3 | -3.9 | -3.4 | -5.7 | -1.2 | -2.1 | -6.9 | -10.7 |
| GIG (Iechyd) | 103.8 | 105.9 | 108.4 | 111.4 | 114.4 | 2.1 | 2.0 | 0.1 | 0.1 | 10.6 | 10.2 | 0.5 | 0.4 |
| Trafnidiaeth | 12.8 | 13.0 | 13.1 | 12.5 | 12.0 | 0.2 | 1.6 | 0.0 | -0.3 | -0.8 | -6.3 | -2.0 | -14.6 |
| Cymunedau - Cymunedau a Llywodraeth Leol | 9.0 | 5.3 | 4.0 | 3.4 | 3.2 | -3.7 | -41.1 | -3.9 | -42.2 | -5.8 | -64.4 | -6.7 | -67.6 |
| Llywodraeth Leol - Cymunedau a Llywodraeth Leol | 28.5 | 26.1 | 24.4 | 24.2 | 22.9 | -2.4 | -8.4 | -2.9 | -10.1 | -5.6 | -19.6 | -8.4 | -26.8 |
| Busnes, Arloesedd a Sgiliau | 18.6 | 17.6 | 16.7 | 15.5 | 14.6 | -1.0 | -5.4 | -1.4 | -7.1 | -4.0 | -21.5 | -5.8 | -28.5 |
| Y Swyddfa Gartref | 10.1 | 9.4 | 9.0 | 8.4 | 8.3 | -0.7 | -6.9 | -0.9 | -8.7 | -1.8 | -17.8 | -2.8 | -25.1 |
| Cyfiawnder | 8.9 | 8.6 | 8.0 | 7.6 | 7.3 | -0.3 | -3.4 | -0.5 | -5.2 | -1.6 | -18.0 | -2.5 | -25.3 |
| Adrannau Swyddogion y Gyfraith | 0.7 | 0.7 | 0.6 | 0.6 | 0.6 | 0.0 | 0.0 | 0.0 | -1.9 | -0.1 | -14.3 | -0.2 | -21.9 |
| Amddiffyn | 32.9 | 33.8 | 34.4 | 34.1 | 33.5 | 0.9 | 2.7 | 0.3 | 0.8 | 0.6 | 1.8 | -2.6 | -7.2 |
| Y Swyddfa Dramor a Swyddfa'r Gymanwlad | 1.6 | 1.6 | 1.6 | 1.5 | 1.3 | 0.0 | 0.0 | 0.0 | -1.9 | -0.3 | -18.8 | -0.5 | -26.0 |
| Datblygiad Rhyngwladol | 7.8 | 8.1 | 8.8 | 11.3 | 11.5 | 0.3 | 3.8 | 0.2 | 1.9 | 3.7 | 47.4 | 2.9 | 34.4 |
| Ynni a Newid Hinsawdd | 2.9 | 3.0 | 3.4 | 3.5 | 3.7 | 0.1 | 3.4 | 0.0 | 1.5 | 0.8 | 27.6 | 0.5 | 16.3 |
| Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig | 2.9 | 2.6 | 2.5 | 2.3 | 2.2 | -0.3 | -10.3 | -0.4 | -12.0 | -0.7 | -24.1 | -1.0 | -30.9 |
| Diwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon | 1.5 | 1.6 | 1.5 | 1.3 | 1.3 | 0.1 | 6.7 | 0.1 | 4.7 | -0.2 | -13.3 | -0.3 | -21.0 |
| Y Gemau Olympaidd | 1.0 | 1.1 | 0.2 | 0.0 | -0.1 | 0.1 | 10.0 | 0.1 | 7.9 | -1.1 | -110.0 | -1.2 | -109.1 |
| Gwaith a Phensiynau | 7.0 | 7.8 | 7.7 | 7.8 | 7.8 | 0.8 | 11.4 | 0.7 | 9.4 | 0.8 | 11.4 | 0.1 | 1.5 |
| Yr Alban | 28.2 | 27.3 | 27.6 | 27.5 | 27.7 | -0.9 | -3.2 | -1.4 | -5.0 | -0.5 | -1.8 | -3.2 | -10.5 |
| **Cymru** | **15.0** | **14.5** | **14.5** | **14.5** | **14.6** | **-0.5** | **-3.3** | **-0.8** | **-5.1** | **-0.4** | **-2.7** | **-1.9** | **-11.3** |
| Gogledd Iwerddon | 10.5 | 10.3 | 10.3 | 10.3 | 10.3 | -0.2 | -1.9 | -0.4 | -3.7 | -0.2 | -1.9 | -1.2 | -10.6 |
| Cyllid a Thollau Ei Mawrhydi | 3.7 | 3.8 | 3.6 | 3.5 | 3.4 | 0.1 | 2.7 | 0.0 | 0.8 | -0.3 | -8.1 | -0.7 | -16.3 |
| Trysorlys Ei Mawrhydi | 0.2 | 0.2 | 0.2 | 0.2 | 0.2 | 0.0 | 0.0 | 0.0 | -1.9 | 0.0 | 0.0 | 0.0 | -8.9 |
| Swyddfa'r Cabinet | 0.4 | 0.5 | 0.4 | 0.3 | 0.5 | 0.1 | 25.0 | 0.1 | 22.7 | 0.1 | 25.0 | 0.1 | 13.9 |
| Cyfrif Unigol y Gwasanaethau Cudd | 2.0 | 2.1 | 2.1 | 2.1 | 2.1 | 0.1 | 5.0 | 0.1 | 3.0 | 0.1 | 5.0 | -0.1 | -4.3 |
| Cyrff Bach a Chyrff Annibynnol | 1.9 | 1.8 | 1.6 | 1.6 | 1.5 | -0.1 | -5.3 | -0.1 | -7.0 | -0.4 | -21.1 | -0.6 | -28.1 |
| Cronfa wrth gefn | 4.1 | 3.3 | 3.4 | 3.5 | 3.6 | -0.8 | -19.5 | -0.9 | -21.0 | -0.5 | -12.2 | -0.9 | -20.0 |
| Cronfa Arbennig | 4.1 | 4.0 | 3.8 | 3.8 | 3.5 | -0.1 | -2.4 | -0.2 | -4.3 | -0.6 | -14.6 | -1.0 | -22.2 |
| Banc Buddsoddi Gwyrdd | 0.0 | 0.0 | 0.0 | 1.0 | 0.0 | .. | .. | .. | .. | .. | .. | .. | .. |

Ffynhonnell: Cyfrifiadau Gwasanaeth Ymchwil yr Aelodau o **Adolygiad o Wariant 2010**, Trysorlys Ei Mawrhydi.

Noder: Mae ffigurau yn y tabl hwn yn deillio o gyhoeddiad Adolygiad o Wariant 2010 Trysorlys Ei Mawrhydi. Mae ffigurau yn y cyhoeddiad hwn wedi'u talgrynnu i'r £0.1 biliwn agosaf. Felly, mae'n bosibl na fydd y cyfrifiadau yn y tabl hwn, sy'n dangos cyfanswm y ffigurau a newidiadau mewn canrannau, yn gwbl hafal i gyfrifiadau yn y ddogfen Adolygiad o Wariant, gan fod y cyfrifiadau hynny'n seiliedig ar ffigurau manwl.

Mae'r terfynau gwariant adrannol wedi'u dangos fel refeniw terfynau gwariant adrannol heb gynnwys dibrisiant.

Cynulliad Cenedlaethol Cymru National Assembly for Wales

## Rhagor o wybodaeth

I gael rhagor o wybodaeth am agweddau ar Adolygiad o Wariant 2010, cysylltwch â Dr Eleanor Roy (**eleanor.roy@cymru.gov.uk**) yng Ngwasanaeth Ymchwil yr Aelodau.

Mae casgliad llawn o ddogfennau'n ymwneud â'r Adolygiad o Wariant ar gael ar wefan Trysorlys Ei mawrhydi: **Adolygiad o Wariant 2010**

Gellir gweld ein **hystod lawn o gyhoeddiadau** ar wefan y Cynulliad: **assemblywales.org/research**

Gallwch hefyd ein dilyn ar Twitter: **@YmchwilCCC**

Rydym yn croesawu eich sylwadau. Dylid eu hanfon i: **Gwasanaeth Ymchwil, Cynulliad Cenedlaethol Cymru, Caerdydd, CF99 1NA** neu eu hanfon drwy e-bost at **Research.Service@wales.gov.uk**

Mae'r Gwasanaeth Ymchwil wedi llunio'r Hysbysiad Hwylus hwn er budd Aelodau'r Cynulliad a'u staff cymorth. Mae'r awduron ar gael i drafod cynnwys y papurau hyn gydag Aelodau a'u staff ond ni allant roi cyngor i aelodau o'r cyhoedd.

**Ymholiad rhif: 10/2941**

**Dr Eleanor Roy**